

COFNODION O GYFARFOD PWYLLGOR AMCANION CYFFREDINOL A CHYNLLUNIO CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWDYD YN YR YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE COLWYN, NOS FAWRTH, 16^{EG} MEHEFIN 2015 AM 6.30 P.M.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd N. Bastow (Is-Gadeirydd)
Cynghorwyr W Bagnall, Mrs L. Edwards, Mrs L. Griffiths, Mrs M. Jones, J. Pearson (Warden Coed), S. Williams, C. Wood

SWYDDOGION: Mrs C J Earley (Clerc y Dref)
Miss Charlotte Gardner (Myfyrwraig Ymgynghorol)

57/15 Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:

Yn absenoldeb y Cadeirydd, croesawyd pawb i'r cyfarfod gan yr Is-Gadeirydd, y Cynghorydd N. Bastow a derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Maer, y Cynghorydd Dr S. Roy, y Dirprwy Maer, y Cynghorydd J. Davies a'r Cynghorwyr D. Porter ag R. Foreman.

58/15 Datgan Cysylltiadau:

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol a / neu gysylltiadau sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

59/15 Cofnodion:

Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 26^{ain} Mai 2015 a'u llofnodi i fod yn adroddiad cywir.

60/15 Materion yn Codi o Gofnodion Blaenorol:

a. Cofnod 37/15 – Briff Ddatblygu Fferm Dinerth Hall:

Cyflwynodd y Clerc ymateb gan James Harland, Swyddog Polisi Cynllunio CBS Conwy, yn cadarnhau y cysylltwyd â'r Gwasanaeth Iechyd pan gafodd y safle ei ddynodi yn y Cynllun Datblygu Lleol, ond ni ofynnwyd am gyfraniadau ariannol ar yr adeg, tuag at gynyddu gwasanaethau Meddyg Teulu yn yr ardal.

Mae ymgynghoriad yn mynd ymlaen unwaith eto ar hyn o bryd, i weld os yw'r sefyllfa wedi newid. Bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei rannu gyda'r Cyngor Tref unwaith bydd y cyfnod ymgynghori yn dod i ben. Mynegwyd pryderon am y galwadau cronrus ar wasanaethau Meddyg Teulu a achoswyd gan nifer o fan ddatblygiadau mewn unrhyw fan penodol. Cynghorwyd yr aelodau gan y Cadeirydd, pe byddai'n angenrheidiol, efallai y gellir cynyddu'r ddarpariaeth o Feddyg Teulu yn y ganolfan iechyd newydd yn West End i ymdopi â nifer mwy o gleifion. Fe nodwyd, fodd bynnag, nad yw'n hawdd recriwtio meddygon newydd oherwydd y cyflog gwahaniaethol gyda Lloegr.

Penderfynwyd disgwyl am yr Adroddiad Pwyllgor unwaith i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben.

61/15 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy:

- a. *Penderfynwyd derbyn y rhybudd o gau ffordd ar gyfer Gorymdaith Diwrnod y Lluoedd Arfog ar 20^{fed} Mehefin, a nodi'r newid yn amser yr Orymdaith (nawr 10.45 tan 11.05am).*
- b. Cyflwynodd y Clerc llythyr i'w ystyried oddi wrth Bennaeth yr Amgylchedd, Priffyrdd a Chyfleusterau, CBS Conwy, yn atgoffa holl aelodau Cynghorau Tref a Chymuned i gyfeirio unrhyw ymholiadau parthed y gwasanaethau hyn trwy'r cyfeiriad e-bost canolog (erf@conwy.gov.uk) neu'r llinell ffôn, fel y gellir monitro'r ymatebion. Fe nodwyd bod adborth yn cael ei geisio am brofiadau diweddar o ymatebion i ymholiadau am wasanaethau, a chadarnhaodd yr Aelodau na chafwyd unrhyw adborth am brofiadau negyddol.
- c. Cyflwynodd y Clerc cais i'w ystyried, am lythyr o gefnogaeth parthed cais / ceisiadau am gyllid ar gyfer Llyn Cychod Parc Eirias.

Penderfynwyd anfon llythyr o gefnogaeth a gofyn i gais cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Polisi a Chyllid os oes angen cyllid cyfatebol ar gyfer y gwaith.

62 /15 Llywodraeth Cymru:

Cyflwynodd y Clerc ymgynghoriad, i'w ystyried, ar gynigion am system newydd o brosesu ceisiadau am 'Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol'. Fe nodwyd fe fydd yn angenrheidiol i ymgeiswyr ymgynghori â'r gymuned cyn cyflwyno unrhyw gais ac fe fydd yn rhaid i'r Cynghorau Tref a Chymuned briodol cael gwybod amdanynt a chael y cyfle i wneud sylwadau. Bydd cyfarwyddyd gan yr Arolygaeth Cynllunio ar gael i ymgeiswyr ynglŷn â maint a math yr ymgynghoriad cymunedol sydd ei angen.

Penderfynwyd derbyn y ddogfen ymgynghori a'i nodi.

63/15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:

Cyflwynodd y Clerc dogfen oedd yn rhoi trosolwg o'r Ddeddf, er gwybodaeth. Cafwyd adroddiad byr ar lafar hefyd am y gweithdy a gynhaliwyd yn ddiweddar. Cafodd ei drefnu er mwyn ystyried natur a chynnwys y cyfarwyddyd fydd ei angen gan gyrff o'r sector cyhoeddus mewn perthynas â gofynion y Ddeddf. Fe nodwyd bod cyfarwyddyd drafft i fod ar gael yn ddiweddarach yn yr haf, fel darpariaeth ar gyfer dyletswyddau'r Ddeddf a ddaw i rym ym Mai 2016. Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Polisi a Chyllid ynglŷn â'r hyn y gellir ei wneud i helpu'r Cyngor cyfarfod ag anghenion y Ddeddf.

Penderfynwyd derbyn y ddogfen ymgynghori a'i nodi.

64/15 Annibyniaeth Barhaus i'r Henoed:

Cyflwynodd y Clerc gwybodaeth am y seminar dysgu ar y cyd sydd ar ddod, ynglŷn â gwasanaethau i'r henoed, a gofynnwyd i'r Aelodau ystyried a fyddai'n briodol i gynrychiolydd ymweld â'r Cyngor Tref.

Penderfynwyd nodi'r manylion am y seminar, a'r farn oedd nad oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r gwasanaethau a roddir ar hyn o bryd gan y Cyngor Tref.

65/15 Ymddiriedolaeth Pier Fictoria Colwyn:

- a. Cyflwynodd y Clerc adroddiad ysgrifenedig gan y Cynghorydd D. Porter yn dilyn cyfarfodydd diweddar (1) y Grŵp Llywio a Swyddogion CBS Conwy a (2) y Grŵp Llywio a Jess Steele. Roedd ei adroddiad yn cynnwys argymhelliad y dylai'r Pwyllgor yn ysgrifennu at Weinidog Cymru i ofyn am Ymchwiliad Cyhoeddus i ystyried y cais am Ganiatâd Adeilad Cofrestredig, oherwydd diddordeb y cyhoedd a'r nifer o wrthwynebiadau a dderbyniwyd i'r cais.
- b. Rhoddodd y Clerc adroddiad byr ar lafar am ganlyniad cyfarfod Pwyllgor Cynllunio CBS Conwy a gynhaliwyd ar 10^{fed} Mehefin, pan gafodd y cais i ddymchwel y Pier ei gymeradwyo ac i'r cais cysylltiedig am Ganiatâd Adeilad Cofrestredig cael ei gymeradwyo i'w gyflwyno i Weinidog Cymru.
- c. Fe nodwyd nad oedd dyddiad y cyfarfod ffurfiol am adborth gan gynrychiolydd o Gronfa Treftadaeth y Loteri (CTL), wedi ei benderfynu hyd yn hyn.
- ch. Fe nodwyd bod Cyfarfod Arbennig o GBS Conwy wedi cael ei alw am ddydd Mawrth 30^{ain} Mehefin am 6pm, i ystyried y Pier a phenderfyniad diweddar CTL.

Penderfynwyd ysgrifennu at Carl Sergeant, y Gweinidog dros Adnoddau Naturiol, (copi i Darren Millar AC a CADW) i ofyn i'r cais am Ganiatâd Adeilad Cofrestredig i ddymchwel y Pier cael ei ystyried mewn Ymchwiliad Cyhoeddus, er mwyn sicrhau tryloywder llawn a hyder gan y cyhoedd yn y drefn o wneud penderfyniad ar gyfer y cais dadleuol hwn, sydd o ddiddordeb lleol a chenedlaethol.

66/15 Cydbwyllgor Rheoli Theatr Colwyn:

Rhoddodd y Cynghorydd N. Bastow adroddiad byr ar lafar am y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29^{ain} Mai. Fe nodwyd bod y Theatr yn perfformio'n dda ac yn taro'r targedau cyllid presennol. Roedd y posibilrwydd o ail-frandio yn cael ei ystyried gan y Cydbwyllgor Rheoli ac fe ddisgwylir am ddyluniad(au) newydd i'r logo. Fe roddir y rhain yn rhad ac am ddim gan gwmni dylunio lleol (View Creative).

Diolchwyd i'r Cynghorydd Bastow am ei adroddiad.

67/15 Gohebiaeth Arall:

- a. Fe nodwyd bod yr eitemau canlynol o ohebiaeth ar gael gan y Clerc ar gais:
 - i Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cymdeithas Trigolion Hen Golwyn (y Dwyrain) a gynhaliwyd ar 10^{fed} Mehefin

- ii Cofnodion cyfarfod Grŵp Mynediad Conwy a gynhaliwyd ar 19^{eg} Mai
- b. Cyflwynodd y Clerc nodiadau o'r cyfarfod diweddar gyda Judi Greenwood, Swyddog THI efo CBS Conwy, gan uchafu'r pwyntiau canlynol, er gwybodaeth:
 - i Fe gynhelir diwrnod agored i'r gymuned yng Nghanol y Dref ar ddydd Mawrth 7^{fed} Gorffennaf yn y prynhawn, yn gysylltiedig â'r Orsaf Drenau a 22 Ffordd yr Orsaf ac ail-lansio'r siop naid.
 - ii. Gofynnir i'r Cyngor Tref ystyried penodi 'Pencampwr Treftadaeth' i gysylltu'n agosach a phrosiect THI ac i helpu i gynyddu'r diddordeb mewn prosiectau treftadaeth yn y dref.

Penderfynwyd cyfeirio'r cais hwn i gael ei ystyried yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

- iii Mae'r gwaith paratoi yn mynd ymlaen ar gyfer ymgyrch 2015 'cefnogi'ch stryd fawr' ym Medi.
- iv Fe wnaed trefniadau dros dro i wyl y cyfnos, a gynhaliwyd am y tro cyntaf llynedd, cael ei gynnal ar ddydd Iau 3^{ydd} Rhagfyr. Fe obeithir bydd y tîm sy'n trefnu yn cynnwys Cymunedau yn Gyntaf a Thîm y Dref. Fe wneir cais am gyllid i'r Pwyllgor Polisi a Chyllid yn y man.
- v. Mae'r angen am 'Ymddiriedolaeth Datblygu'r Dref' yn cael ei ystyried, gan gydnabod yr angen am gorff addas i symud ymlaen gyda'r gwaith cyfredol o adnewyddu unwaith y daw prosiectau VVP a THI i ben. Fe ragwelir bydd yr Ymddiriedolaeth yn gallu prynu eiddo allweddol addas yn y dref pan fyddant yn dod ar gael, er mwyn helpu i'w hadnewyddu a diogelu'r defnydd at y dyfodol. Bydd mudiad o'r fath yn gorfod cael cefnogaeth a chymorth y gymuned. Fe nodwyd bydd yr eitem yma yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Polisi a Chyllid.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a'i nodi.

68/15 Cynllunio:

- a. Cyflwynodd y Clerc y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd gan GBS Conwy i'w ystyried.

Penderfynwyd cyflwyno sylwadau ar y ceisiadau hyn fel y gwelir yn Atodlen 'A' sydd gyda hwn.

- b. Fe nodwyd na chyflwynwyd unrhyw Benderfyniadau Cynllunio gan GBS Conwy yn y tair wythnos diwethaf.
- c. Cyflwynodd y Clerc manylion am weithdy hyfforddiant Cynllunio sydd i'w gynnal yn Neuadd y Dref ar ddydd Mercher 15^{fed} Mehefin. Fe nodwyd, oherwydd mai yn Neuadd y Dref y cynhelir y gweithdy, cafodd y Cyngor Tref cynnig tri lle am ddim, a bod mwy o le ar gael am £30 yr un.

Penderfynwyd bod y Cynghorwyr Lindsay Griffiths a Bill Bagnall i fod yn bresennol ac i unrhyw aelod arall efo diddordeb, i gysylltu â'r Clerc mor fuan ag sy'n bosibl er mwyn cadw lle.

Cyflwynodd y Clerc hefyd, gwybodaeth am weithdy hyfforddiant Cynllunio sydd i'w gynnal yn Venue Cymru ar 21^{ain} Gorffennaf, sy'n cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru. Roedd le tri di-dâl ar gael.

Penderfynwyd penodi'r Clerc a'r Cadeirydd (neu'r Is-Gadeirydd os nad yw'r Cadeirydd yn gallu mynd) i fynd ac i adrodd yn ôl.

- ch.** Rhoddodd y Cynghorydd B., Bagnall adroddiad am yr ymweliad Safle Cynllunio diweddar mewn perthynas â'r cais i ddymchwel y Pier. Dywedodd bod yr aelodau wedi datgan pryderon am y murluniau yn y Pafiliwn, ond efallai na fydd yn bosibl i'w hachub. Efallai bydd yn rhaid adnewyddu rhai o'r cledrau. Bu rhai o aelodau Ymddiriedolaeth Pier Fictoria Colwyn yn bresennol ac wedi cymysgu gyda'r aelodau . Gofynnwyd a fyddai'n bosibl i achub y ffenestri gwydr y Pafiliwn a chadarnhaodd y Cynghorydd Wood y bu perthynas iddo yn gysylltiedig ag atgyweirio'r ffenestri gwydr rai blynyddoedd yn ôl, ond nid oedd yn gwybod os oeddynt yn dal i fodoli / yn gallu cael eu hachub.

Diolchwyd i'r Cynghorydd Bagnall am ei adroddiad.

- d.** Cyflwynodd y Clerc y diweddariad diwethaf ar Fesur Cynllunio (Cymru), gan gadarnhau y byddai'n debyg o dderbyn Cydsyniad Brenhinol a dod yn Ddeddf yng Ngorffennaf.

69/15 Ceisiadau am Drwyddedau:

Cyflwynodd y Clerc nifer o geisiadau (pob un yn TENS) wedi cael eu cofnodi ar gyfer ardal Bae Colwyn yn yr wythnosau diweddar.

Penderfynwyd derbyn a nodi'r ceisiadau diweddar am drwyddedau.

Daeth y Cyfarfod i ben am 7.40 pm

..... Cadeirydd